

Penallta House,  
Tredomen Park,  
Ystrad Mynach,  
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,  
Parc Tredomen,  
Ystrad Mynach,  
Hengoed CF82 7PG



[www.caerphilly.gov.uk](http://www.caerphilly.gov.uk)  
[www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Rebecca Barrett  
(Rhif Ffôn: 01443 864245 Ebst: [barrerm@caerphilly.gov.uk](mailto:barrerm@caerphilly.gov.uk))

**Dyddiad: Dydd Mercher, 6 Hydref 2021**

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio** yn cael ei gynnal trwy Microsoft Teams ar **Dydd Mercher, 13eg Hydref, 2021** am **5.00 pm** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Mae croeso i chi ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod, a dylid rhoi cyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei recordio a bydd ar gael i'w weld trwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Felly, bydd delweddau/sain yr unigolion sy'n siarad yn ystod y Pwyllgor Cynllunio ar gael i'r cyhoedd trwy'r recordiad ar wefan y Cyngor: [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)

Oherwydd cyfyngiadau yn ymwneud â Covid-19, mae Ymweliadau Safle'r Pwyllgor Cynllunio wedi'u hatal ac ni fydd y cyfarfod hwn ar agor i'r wasg na'r cyhoedd. Fodd bynnag, gall y rhai sydd â diddordeb wneud cais i fynychu o bell a siarad mewn perthynas ag unrhyw eitem ar yr agenda hon. I gael rhagor o fanylion am y broses hon, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor ar [barrerm@caerffili.gov.uk](mailto:barrerm@caerffili.gov.uk)

Yr eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Christina Harrhy'.

**Christina Harrhy**  
PRIF WEITHREDWR

## AGENDA

Tudalennau

- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

A greener place Man gwyrdach



2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

3 Cynhaliwyd y Pwyllgor Cynllunio ar 8fed Medi 2021.

1 - 4

I dderbyn ac ystyried yr adroddiad(au) canlynol:-

4 Cais Rhif 21/0675/LA - Canolfan Ddysgu Glan-y-nant, Hanbury Street, Glan-y-nant, Coed Duon

5 - 16

**Cylchrediad:**

Cynghorwyr M.A. Adams, Mrs E.M. Aldworth (Is Gadeirydd), C. Andrews, J. Bevan, M. Davies, N. Dix, J.E. Fussell, R.W. Gough, L. Harding, A.G. Higgs, A. Hussey, B. Miles, J. Ridgewell, R. Saralis (Cadeirydd), J. Simmonds a J. Taylor

A Swyddogion Priodol

**SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH**

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk). ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu. Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r [Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn](#) ar ein gwefan neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio [grifdd2@caerffili.gov.uk](mailto:grifdd2@caerffili.gov.uk) neu ffoniwch 01443 863028.